



# Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth QAA

## Ynghylch y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Nid yw QAA yn destun *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* (FOIA), ond rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'i safonau o ran bod yn agored ac yn atebol. Ymdrinnir â phob cais am wybodaeth yn ysbryd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch gwaith sicrhau ansawdd QAA ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn destun y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Caiff eithriadau eu gweithredu'n briodol ac yn unol â deddfwriaeth.

## Cynllun cyhoeddi

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bawb y mae'r ddeddf yn berthnasol iddynt fod â 'chynllun cyhoeddi' sy'n manylu ar y categorïau o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn unol ag ysbryd y Ddeddf, y ddogfen hon yw Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth QAA.

## Gweithdrefn adborth

Er nad yw QAA yn destun gweithdrefnau cwynion ac apelïadau'r Comisiynydd Gwybodaeth o ran rhyddid gwybodaeth, hoffem glywed a oes gennych chi unrhyw broblemau, sylwadau neu awgrymiadau ynghylch ein Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth. Cysylltwch â ni yn [governance@qaa.ac.uk](mailto:governance@qaa.ac.uk)

## Hawlfraint

Oni nodir yn wahanol, QAA sy'n berchen ar hawlfraint y cyhoeddiadau a'r cynnwys ar wefan QAA. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn heb ganiatâd ffurfiol na thâl ar gyfer defnydd personol yn unig. Os ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar eich mewnwyd neu wefan eich hun, neu ei ddsbarthu at ddibenion marchnata, addysgol, ymchwil neu ddibenion eraill, cysylltwch â ni yn [compliance@qaa.ac.uk](mailto:compliance@qaa.ac.uk)

Ni chaniateir aildefnyddio logo QAA heblaw o dan drwydded. Ar gyfer aildefnyddio deunydd sy'n nodi perchnogaeth hawlfraint ac eithrio QAA, dylech gysylltu â pherchennog yr hawlfraint.

## Codi tâl

Ni chodir tâl am yr holl wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan - efallai y codir tâl am gyhoeddiadau ar ffurf copi caled. Os nodir bod gwybodaeth ar gael ar gais, cysylltwch â [compliance@qaa.ac.uk](mailto:compliance@qaa.ac.uk) neu ffoniwch 01452 557000 i gael copi. Efallai y codir tâl am gopïo a phostio, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn cyn i ni anfon y wybodaeth.

## Eithriadau

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn ein Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth ar gael heb eithriadau, ond mewn rhai achosion gall elfennau o ddogfennau unigol gael eu hailolygu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r *Ddeddf Diogelu Data 2018*.

## Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'n Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth i [governance@gaa.ac.uk](mailto:governance@gaa.ac.uk). Os oes angen copi caled o'n Cynllun arnoch, ffoniwch 01452 557000 ac anfonir un atoch.

## Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth QAA

Dosbarth	Disgrifiad	Argaeledd/ffioedd
Pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau	<p><a href="#">Llywodraethiant cyfansoddiadol a chyfreithiol:</a></p> <p>Memorandwm ac Erthyglau Cydgysylltiad</p> <p>Cofnodion Cyfarfodydd Bwrdd Agored a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol</p> <p>Cyfansoddiad aelodau'r Bwrdd a datganiadau buddiannau'r aelodau</p> <p>Côd arfer gorau ar gyfer aelodau Bwrdd QAA</p> <p>Cylch gorchwyl y Bwrdd</p> <p>Uwch Dîm Rheoli</p>	<p>Ar gael o'n gwefan am ddim</p> <p>I wneud cais am gofnodion hanesyddol, cysylltwch â <a href="mailto:compliance@gaa.ac.uk">compliance@gaa.ac.uk</a></p> <p>Bydd cofnodion yn cael eu darparu lle bynnag y bo modd</p>
Beth rydyn ni'n ei wario a sut rydyn ni'n ei wario	<p>Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant gwirioneddol:</p> <p><a href="#">Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol</a></p>	<p>Ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan am ddim</p> <p>Mae adroddiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar gael o <a href="#">wefan Tŷ'r Cwmnïau</a></p>
Beth yw ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn mynd ati i'w cyflawni	<p>Strategaeth a blaenoriaethau:</p> <p><a href="#">Strategaeth QAA 2023-27</a></p> <p><a href="#">Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol</a></p>	<p>Ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan am ddim</p>

<p>Ein polisiau a gweithdrefnau</p>	<p><a href="#">Mae polisiau a gweithdrefnau'n cynnwys:</a></p> <p>Polisi Gwrthdaro Buddiannau</p> <p>Polisi Hawlfraint</p> <p>Cwynion am safonau ac ansawdd mewn addysg uwch</p> <p>Cwynion am QAA</p> <p>Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a Chynladwyedd</p> <p>Diogelu Data</p> <p>Datganiad o Fuddiannau a Chofrestr Buddiannau</p> <p>Tîm Ymholiadau - Safonau Gwasanaeth</p> <p>Cydraddoldeb ac Amrywioldeb</p> <p>Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau</p> <p>Ymagwedd QAA at Sicrhau Ansawdd Gweithgaredd Asesu ac Adolygu yn Fewnol</p> <p>Hysbysiad Preifatrwydd</p> <p>Mynediad gan Destun y Wybodaeth / Gweithdrefn Cais am Wybodaeth</p> <p>Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Chwythu'r Chwiban</p>	<p>Ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan am ddim</p>
<p>Rhestrau a chofrestrau</p>	<p><a href="#">Aelodau QAA</a></p> <p><a href="#">Partneriaid rhyngwladol</a></p> <p><a href="#">Adroddiadau sicrwydd ansawdd</a></p>	<p>Ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan am ddim</p>
	<p>Cofrestr o gyfarwyddwyr cwmni a'u cysylltiadau/buddiannau</p> <p>Cofrestr o gyn swyddogion</p> <p>Cofrestr o bersonau â rheolaeth arwyddocaol</p>	<p>Ar gael o <a href="#">wefan Tŷ'r Cwmnïau</a></p>

<p>Y gwasanaeth a gynigiwn</p>	<p>Mae QAA yn diogelu safonau ac yn gwella ansawdd addysg uwch yn y DU lle bynnag y caiff ei darparu ledled y byd, gan wirio bod myfyrwyr yn cael yr addysg uwch y mae ganddynt hawl i'w disgwyl. Rydym hefyd yn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU ac yn rhoi cyngor ar geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.</p> <p>Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys:</p> <p><a href="#">Adolygiadau o ddarparwyr addysg uwch yn y DU</a></p> <p><a href="#">Adolygiadau o ddarparwyr addysg uwch rhyngwladol</a></p> <p><a href="#">Adroddiadau ar wledydd ac adolygiadau o addysg draws-wladol</a></p>	<p>Ar gael o'n gwefan am ddim</p>
	<p>Proffiliau Asiantaethau Dilysu Mynediad a gwybodaeth am Fynediad i AU</p>	<p><a href="#">gwefan Mynediad i AU</a></p>
	<p>Adroddiadau ar geisiadau am bwerau dyfarnu graddau</p>	<p>Gallwch chwilio am enw sefydliad ar <a href="#">wefan QAA</a> (cofnodion ar gael dim ond ar ôl i'r Cyfrin Gyngor wneud ei benderfyniad)</p>
<p>Cyfathrebu</p>	<p><a href="#">Mae cyfathrebu â'r sector a gyda'r cyhoedd yn gyffredinol yn cynnwys:</a></p> <p>cylchlythyrau</p> <p>digwyddiadau</p> <p>eitemau ar gyfer ymgynghori</p> <p>cyfryngau - datganiadau i'r wasg</p> <p>archif newyddion</p> <p>Blog</p> <p><i>Quality Compass:</i></p>	<p>Ar gael o'n gwefan am ddim</p>

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 a SC037786  
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)